



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Tachwedd 2016 am 6.00yh
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 November 2016 at 6.00pm
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/Councillors** Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**),
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Richard Jones,
Catrin Miles

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'r cyfarfod, yn cynnwys aelodau'r wasg a'r cyhoedd.

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed all, including press officers and members of the public, to the meeting.

2. Cyflwyniad gan Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.

Presentation by Dafydd Llywelyn, Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner.

Croesawyd Mr Llywelyn gan y Maer. Croesawodd hefyd y Cyng. Lyn Jones a ddaeth ar wahoddiad Cyngor Tref Aberteifi i gynrychiolydd o Gyngor Cymuned y Ferwig fynychu'r cyfarfod.

Cafwyd blas o gyfrifoldebau'r Comisiynydd a phwysleisiodd ei fod yn barod i deithio i gwrrdd â chymunedau o fewn ei awdurdod, sef o fewn ardal eang Dyfed-Powys. Mae ganddo weledigaeth dros y pedair blynedd nesaf sydd yn cynnwys ailfuddsoddi mewn camerâu Teledu Cylch Cyfyng (TCC) gan gyflwyno system wedi ei moderneiddio, a hefyd recriwtio nifer o swyddogion cymunedol. Mae cynhorau tref Castellnewydd Emlyn ac Aberhonddu yn barod wedi buddsoddi mewn datblygu gwasanaeth y TCC. Wrth gwrs, mae costau cynnal a chadw yn ychwanegol a bydd y camerâu yn cael eu monitro naill ai yn Aberystwyth neu yng Nghaerfyrddin. Gwyntyllwyd yr ymosodiad difrifol ar fachgen ifanc o ardal y Ferwig; pe bai camerâu TCC ar gyfil y safle byddai erlyn y troseddwr dipyn yn haws. Mae defnyddio tystiolaeth o du'r camerâu hefyd yn arbed arian ac amser yr heddlu yn gyffredinol ac yn arbed gwaith papur sydd angen er mwyn cyflwyno tystiolaeth gyfreithiol i'r llys.

Cynghorwyd y cyngor i glustnodi manau delfrydol i osod camerâu TCC.

Ynglŷn â'r ardaloedd cyfyngu cyflymdra i 30 neu 40myw, cyn gosod camerâu byddai'n rhaid gwneud arolygiad o'r man a'r lle. Tystiodd y Comisiynydd bod y colofnau sy'n dangos cyflymdra'r cerbyd ar y pryd yn eithaf effeithiol. Mae parcio ar y palmentydd hefyd yn broblem sydd yn rhaid ei datrys yn yr ardal – gellir codi'r mater yng nghyfarfod PACT gan ddefnyddio pwerau sydd gan y PCSOs i ddelio â'r troseddwyr. Mater a gaiff ei godi tro ar ôl tro yn y cyfarfodydd yw cerbydau'n teithio fin nos ag un golau'n unig – problem i'r heddlu lleol i'w ddatrys ydyw. Atebodd y Comisiynydd bod galwadau 101 ar gyfartaledd yn cael eu hateb o fewn 70-90 eiliad gyda'r Gymraeg, oherwydd prinder gweithwyr sydd yn rhugl yn yr iaith, ychydig yn hwy. Cytunodd Mr Llywelyn y dylai oriau agor swyddfa'r heddlu yn Aberteifi, yn ogystal â manau eraill o fewn ei awdurdod, gael eu hailystyried. Mae gan yr awdurdod tua £15m i'w wario dros y pum mlynedd nesaf ar adeiladau. Mae cadw celloedd ar agor i droseddwyr yng ngorsaf Aberteifi, oherwydd y rheidrwydd bod rhingyll arbenigol ar ddyletswydd, yn creu cymhlethdodau; mae'r costau o gael swyddogion yn bresennol am dair sift i weithredu'r polis yn grochbris. Ychwanegodd mai costau cynnal heddlu Dyfed-Powys ar

raddfa Band D treth y Cyngor yw'r rhataf yn y wlad. Awgrymwyd i'r Comisiynydd y dylid cyflwyno cardiau adnabod i bobl ifanc gan gydweithio gydag athrawon ysgolion uwchradd yn ogystal â swyddog cyswllt ysgolion; byddai hyn o fantais i reoli gor-yfed ac yfed tan oedran. Eglurodd hefyd bod camerâu sydd ynghlwm ar lifrau'r heddlu yn gam cadarnhaol ymlaen i warchod yr heddlu a hefyd rheoli ymddygiad y troseddwr honedig.

Terfynodd Mr Llywelyn ei gyflwyniad drwy ddweud mai ei fwriad pennaf oedd gweld trefi fel Aberteifi yn safleodd diogel a deniadol i'r hen yn ogystal ag i'r ifanc. Mae angen creu awyrgylch o ymwybyddiaeth i wrthsefyll trosedd yn y lle cyntaf. Edrychir ymlaen i weld camau cadarnhaol mewn blwyddyn.

Diolchwyd i'r Comisiynydd gan y Maer am ei gyflwyniad doeth a diddorol, a dymunodd y gorau iddo yn ei swydd gyfrifol.

The Mayor welcomed Mr Llywelyn and invited him to give his presentation to the council. He also welcomed Cllr Lyn Jones who represented Ferwig Community Council at the meeting. The Commissioner highlighted his first four months in office and stressed that he was prepared to meet the community as often as possible, although the extent of his authority within the vast Dyfed-Powys area was rather daunting. He has a long-term vision of reintroducing streamlined Close Circuit Television (CCTV) cameras and also a plan to recruit more community officers. Newcastle Emlyn and Brecon town councils have already introduced plans to fund CCTV cameras in their towns. The maintenance costs are extra and also the monitoring of cameras which will be administered from either Carmarthen or Aberystwyth. The serious attack on a local youth from the Ferwig area was discussed; if a CCTV camera was enabled on site, prosecuting the suspect would have been so much simpler. The use of footage from cameras assists greatly with policing procedures and is relatively economical and conserves much time-consuming administrative tasks producing prosecuting evidence for court cases. The council was advised to highlight locations for the placing of cameras within the town.

The Commissioner stated that site surveys need to be undertaken before speed cameras can be placed to limit the speed of vehicles travelling within the 30 and 40mph districts. It was agreed that simultaneous speed indicator columns within these areas are efficient, and drivers, consequently, are more inclined to drive within the limit. Pavement parking in various locations in town is causing problems to wheelchair and pushchair users – this anti-social obstruction needs to be raised at PACT meetings where PCSOs can be empowered to deal with the hazard. Another problem regularly discussed is vehicles with malfunctioning lights for night driving – this is a problem that local officers can deal with. Mr Llywelyn stated that on average 101 calls are answered within 70-90 seconds with Welsh language calls taking longer due to the shortage of Welsh speakers on duty. He agreed that the opening hours of police stations generally should be extended. The authority has £15m to invest in police buildings during the next five years. The practice of maintaining police cells in stations such as Cardigan is expensive as the presence of a retaining sergeant is essential, i.e. a 24-hour stint would necessitate three shifts of officers. Under the council tax Band D structure, the running costs of Dyfed-Powys Police is the most inexpensive in the country. It was suggested to the Commissioner that ID cards could be introduced to assist with under-age drinking by collaborating with head teachers and school liaison officers. Mr Llywelyn stated that body cameras worn by officers greatly assist in controlling disturbances and social skirmishes, and protects officers and also the alleged offenders in some cases.

The Commissioner concluded his presentation by stating that his aim was to see Cardigan progress into a safe and attractive town for people of all ages. Developing an ethos of care to create community safety and preventative measures where possible to combat crime is all-important. The next year of his duty in office will be most interesting.

The Mayor thanked the Commissioner for his interesting presentation and wished him well with his prominent duties.

3. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllr Jane Roche (*gwaith/work*), Akira Shimazaki (*anhwylus/unwell*), Melfydd George (*anhwylus/unwell*), Ken Edwards (*gwaith/work*).

4. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.**

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Cynllunio / Planning A160954/5</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Cynllunio / Planning A160954/5</i>

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Hydref.

Confirmation of Minutes of 4 October Council Meeting.

Tud. 1161, eitem 7: Un eitem heb ei gyfieithu i'r Saesneg.

Tud. 1162, eitem 11(b)(iii): ... dychwelyd o'i thaith o "Awstralia" nid "America".

Tud. 1162, eitem 11(c)(i): ...bydd y stondinau eleni ar ochr "ddwyreiniol" y dref nid yr ochr "orllewinol".

Page 1161, item 7: The following item was not translated: "Page 1147, item 10(c)(v): The closing date to sign the petition is 10/10/16".

Page 1162, item 11(b)(iii): (see above).

Page 1163, item 11(c)(i): ... the stalls this year will be located on the "eastern" side of the street, not "western".

Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendments, Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Catrin Miles.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1162, eitem 11(b)(iii): Cadarnhaodd y Cyng. Mark Cole y byddai'n cysylltu â Mrs Wendy Morris er mwyn trefnu cyfarfod i drafod dyfodol y Carnifal yn Aberteifi. Awgrymwyd y dylid cyhoeddi hyn yn y wasg leol a hefyd arddangos posteri o'r cyfarfod.

Tud. 1165, eitem 14 (Goleuadau'r Strydoedd): Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis nad oedd y cyngor sir yn gyfrifol am gynnal a chadw'r goleuadau ym mhen draw stad Grove Park gan fod y ffordd heb ei mabwysiadu.

Tud. 1166, eitem 15 (Grantiau'r Cyngor): Awgrymodd y Cyng. Catrin Miles y dylid paratoi holiadur i'w gyflwyno i dderbynwyr grantiau'r cyngor i gadarnhau bod yr arian a glustnodir gan yr elusen/sefydliad wedi ei wario, a hefyd bod llun o'r gwelliant/pryniant yn cael ei gyhoeddi yn y wasg leol.

Page 1162, item 11(b)(iii): Cllr Mark Cole confirmed that he would contact Mrs Wendy Morris to organise a meeting to resurrect the Carnival. It was recommended that an announcement of this be placed in the local press and posters of the meeting displayed.

Page 1166, item 14 (*Street Lights*): Cllr Adams-Lewis confirmed that the county council did not accept responsibility for the lights located at the far end of Grove Park as the road had not been adopted.

Page 1166, item 15 (*Council Grants*): Cllr Catrin Miles suggested that a questionnaire be given to all recipients of grants verifying that the money had been used as earmarked in the application form; a photo-call could be arranged showing the improvements/purchase.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Cafodd y dyddiadur ei anfon ymlaen yn hwyrach i'r holl aelodau.

The diary was later forwarded to all members.

8. Cynllunio / Planning:

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A160954/5	The Elms, Priory Street	Demolition of derelict store and utility room; extension to the existing rear; internal alteration (additional 7 units) and associated works.	Three letters of objection had been received. Members had concerns regarding the overall size of the development and the restricted accommodation within each unit. The building is located within a conservation area and the space allocated for parking is inadequate. The increase in traffic would greatly compromise the safety of users attending the children's centre. Prior to development control officers recommending the development, Cardigan town councillors implore the authority to organise a site meeting.

A161002	Post Office, 26 High Street	Alterations to front elevation ground floor window to lower the cill level	Members request additional information regarding the change of use projected for the building and the far-reaching consequences of loss of present services.
---------	--------------------------------	--	---

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/10/16	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor/</i> Rent of Council Office (<i>Hydref/October</i>). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> (4, 18 <i>Hydref/October</i>) (12 <i>Hydref/October</i> : AGM King George 5 th PF) <i>Band Lydan (Tachwedd) / Broadband (November)</i>	A9 A9 C3 A20	D/D 4317	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £25.00 (0.00) £20.00 (0.00)
31/10/16	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Hydref/Oct.)</i>	A3	4318	£748.90 (0.00)
17/9/16	BT: <i>Ffôn / Telephone</i>	A20	4319	£83.04 (13.84)
3/10/16	Jewson: <i>Clo a Phaent / Lock and Paint</i>	C3	4320	£27.87 (4.65)
5/10/16	Newsquest: <i>Hysbyseb / Advert AGM KG5th Charity</i>	C3	4321	£67.68 (11.28)
24/10/16	Caffi Sgwâr Finch Square Café: <i>Stampiau / Stamps</i>	A8	4322	£66.00 (0.00)
1/11/16	Society of Local Council Clerks: <i>Aelodaeth / Membership 2016</i>	A12	4323	£149.00 (0.00)
30/9/16	<i>Argraffwyr E. L. Jones Printers:</i> <i>Papur swyddfa / Stationery.</i> <i>Posteri / Posters (Parti Pump)</i>	A7 B8	4324	£84.00 (14.00) £57.60 (9.60)
31/10/16	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd/Simultaneous translation (4/10/16)</i>	A18	4325	£119.40 (19.90)
31/10/16	<i>Bachan Deche / Handyperson (Hydref/October)</i>	A19	4326	£297.00 (49.50)
1/11/16	Royal British Legion (Cardigan Branch): <i>Cyfraniad at blethdorchau.</i> Donation towards wreaths (11/11/16 & 13/11/16)	D3	4327	£75.00 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Graham Evans bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins.

Cllr Graham Evans proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.

Derbyniadau/Receipts:

9/9/16 *Llog y Banc / Bank interest* £2.65

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Roedd y Cyng. Adams-Lewis yn bles bod y gwaith ger Ysgol Gynradd Aberteifi wedi ei gwblhau mewn da bryd. Mae'r gwelliannau yn gorfodi rhieni yn awr i barcio'u ceir mewn manau diogel yn y maes parcio.**

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Mae'r Cyng. Miles yn bles bod Pwll Nofio Aberteifi wedi dod i'r brig yng nghystadleueth "M&S Energy Fund" sy'n golygu bod £12,500 ar gael tuag at osod paneli haul. Bydd hyn o fudd mawr i'r safle ac yn ffordd o arbed ynni (ac arian) yn y dyfodol.**
- (ii) **Mae pryderon mawr ynglŷn â diogelwch a chwilio am ffordd ddiogel i bobl groesi ar waelod Stryd y Priordy. Mae cynlluniau wedi eu derbyn oddi wrth adran briffyrdd CSC i wella'r heolydd yno a threfnu ffordd ddiogel i bobl groesi Stryd Morgan – o Siop y Cardi draw i safle'r llyfrgell pan gaiff ei hail-leoli o Ganolfan Teifi. Bydd rhaid cadw llygad barcud ar y sefyllfa er mwyn sicrhau diogelwch cerddwyr.**
- (iii) **Cae Chwarae Pentop: Bu Mr Mike Phillips a'i gwmi'n brysur yn gwastadu'r maes chwarae a phlannu hadau porfa – sydd bellach yn egino'n dda yn y tywydd teg sydd ohoni. Mae'r Maer wedi arwyddo prydles sy'n caniatáu i'r contractwr ddechrau ar ei waith ar y fnyedfa i ochr uchaf y maes, o gyfeiriad Golwg y Castell. Bydd RAY Ceredigion yn parhau gyda sesiynau chwarae a phlant yr ardal tan ddiwedd mis Mawrth, felly bydd cyfle i gysylltu â hwy ynglŷn â delwedd y maes yn y dyfodol.**

(c) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) Yn yr un modd, canmolwyd y gwaith ger yr Ysgol Gynradd gan y Cyng. Mark Cole.
- (ii) Mae'r tŷ sydd wedi ei godi tan reolaeth Tai Ceredigion yn dal yn wag yn Rhos-y-dre. Oherwydd y rhybuddion a wyntyllwyd dro ar ôl dro gan y cyngor ynglŷn â'r geunant sydd yn rhedeg gerllaw, mae problemau di-ri yn dal yno. Mae'r arolygydd sydd â gofal am waith cyn-preswyllo yn dal i osod amodau ar y lle tra bod y teulu a benodir i symud yno yn dal i aros.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis was pleased that the road improvement work near Ysgol Gynradd Aberteifi had been completed in good time. The safety features permitting drivers to park their vehicles in allocated bays in the car park is most welcome.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles is pleased that Cardigan Swimming Pool had won the "M&S Energy Fund" competition with £12,500 being allocated to place solar panels on the building. This achievement will save on energy and much needed funding for the future.
- (ii) There is much concern regarding the safety of pedestrians traversing the road in lower Priory Street. Plans have been received from the county council highways department to improve the highway and offer a safe crossing from Morgan Street – from Siop y Cardi towards the new library when it is relocated from Canolfan Teifi. The safety of pedestrians at this point is paramount.
- (iii) Cae Chware Pentop Playing Field: The contractor, Mr Mike Phillips, and his company have been industrious preparing the field and sowing seeds which are germinating following the temperate weather experienced recently. The Mayor has signed the lease which allows the contractor to commence work on the upper entrance to the field, from the Golwg y Castell direction. RAY Ceredigion will continue the play sessions until the end of March; it is hoped that their input can be obtained regarding the future layout of the area.

(c) Cllr Mark Cole:

- (i) Cllr Cole reiterated the praise regarding the good work of the contractors at the Ysgol Gynradd Aberteifi highway.
- (ii) The house built under the jurisdiction of Tai Ceredigion at Rhos-y-dre remains vacant. The unheeded warnings voiced by the council regarding the stream flowing nearby have come to fruition with the problems incurred continuing. The condition regarding the pre-occupancy placed by the works inspector remains unsolved whilst the appointed family is still waiting to be housed.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
150	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Cais am gymorth ariannol 2016-17 Application for financial assistance (Lle Chwarae Pentop Play Area)</i>	<i>Mae copi wedi ei drosglwyddo i'r Cyng. Catrin Miles. Copy has been forwarded to Cllr Catrin Miles.</i>
151	CSC / CCC (Paul Arnold): <i>Cymhennu Ceredigion (Gweithio gyda'n gilydd i gadw ein strydoedd yn rhydd o rwystrau) Clutter-free Ceredigion (Working together to keep our streets obstacle-free)</i>	<i>Taflenni ar gael yn y swyddfa. Leaflets available in the council office. Gofynnwyd i'r clerc archebu rhagor o daflenni er mwyn eu dosbarthu mewn manau priodol. The clerk was asked to order a further supply of leaflets for local distribution.</i>
152	CSC / CCC (Paul Arnold): <i>Bydd y cyngor sir yn symud yr holl gyfarpar sydd ar Gae Chwarae Netpwl ar ddiwedd mis Tachwedd, gan greu man chwarae wedi ei dirlunio ar y safle. Bydd y cyfarpar a glustnodir gan gyngor y dref yn cael eu symud i storfa'r cyngor. The county council will remove the play equipment at Netpool during the last two weeks of November. The authority will create a natural landscaped play provision on the site. The equipment agreed will be delivered to the rugby ground store room.</i>	<i>Mae'r mater wedi ei drafod yn yr is-bwyllgor. The matter has been discussed in the sub-committee. (18/11/16, tud./page 1169)</i>

153	CSC / CCC (Eirian Davies): <i>Ymgynghoriad Cynllun Stategaeth y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.</i> Consultation: Welsh in Education Strategy Plan 2017-20.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 20/10/16. <i>Mae copi caled ar gael yn y swyddfa.</i> A hard copy is available in the office.
154	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure</i> Strand – Gloster Row: 21/11/12 – 2/12/16 (<i>Gwaith strwythurol i'r bibell garthffosiaeth.</i> Structural work to sewer)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/10/16.
155	CSC / CCC (Pam Morris): <i>Hysbysiadau Cyhoeddus yn ymwneud â chau'r ffordd i Sul y Cofio.</i> Public Notices relating to the road closure for Remembrance Sunday.	<i>Bydd y Bachan Deche yn eu gosod mewn mannau priodol.</i> The Handyperson will place notices in appropriate locations.
156	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Manylion am gais Ewropeaidd i wella mannau chwarae yn cynnwys Maes Sgrialu Aberteifi.</i> Information regarding the application for European money to improve play areas including the Skateboard Park in Cardigan.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 1/11/16.
157	CSC / CCC (Eifion Jones): <i>Amserlen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy /</i> Timetable of the county council's review of its Rights of Way Improvement Plan (To be finalised by September 2018)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 1/11/16.
158	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure</i> (<i>Gorymdaith Llusernau Cymunedol / Community Lantern Parade</i>), 9/12/16, 6.45-7.45pm (Pendre, Stryd Fawr, Rhiw Grosvenor)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 1/11/16.
159	4CG Cymru 2010 Ltd [1]. & Evans Family, Briscwm [2], Canolfan Plant Jig-So Children's Centre [3]: <i>Llythron o wrthwynebiad i gais datblygu A160954/5.</i> Letters objecting to the planning application A160954/5.	<i>Mae copïau wedi eu blaenyrru at aelodau.</i> Copies forwarded to members 25/10/16. <i>Trafodwyd tan eitem 8 uchod.</i> Discussed under item 8 above.
160	Menter Aberteifi: <i>Ymateb y cwmni i lythyr Mark Williams AS ynglŷn â defnydd toiledau'r Neuadd.</i> Response to Mark Williams MP's letter regarding use of toilet facilities at the Guildhall.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members
161	<i>Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth: "Sgyrsiau Iach!"</i> Mid-Wales Healthcare Collaborative: <i>"Healthy Conversations!"</i> – 11/11/16, Canolfan Morlan Centre, Aberystwyth, 2.00pm and 6.00pm.	<i>Mae poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed on notice board.
162	Age Cymru Ceredigion: <i>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol /</i> AGM 2016, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 17/11/16, 2.00pm	<i>Mae poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed on notice board.
163	Hiraeth Hope West Wales supporting refugees: <i>Cefnogaeth i ffoaduriaid o Syria a chymorth i ail-leoli tri theulu yn Aberteifi.</i> Sponsoring of three Syrian families in Cardigan.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 25/10/16. <i>Cytunodd y cyngor yn unfrydol i gefnogi'r fenter.</i> The council agreed unanimously to forward a letter of support to the county council.
164	Tai Wales & West Housing: <i>Manylion y cwmni newydd.</i> Contact details of the new housing company.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
165	<i>Sioe Amaethyddol Aberteifi /</i> Cardigan Agricultural Show: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r ginio blynyddol.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to the annual dinner, 11/11/16, Cliff Hotel, 7.30pm.	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.
166	The Barony of Cemais: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to the installation of the Mayor Elect, Alderman John Edwards, at the Court Leet, Llwyngwair Manor, Newport, 12/11/16, 6.30pm.	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.

167	Coleg Ceredigion: <i>Gwahoddiad i'r cynghorwyr i agoriad swyddogol "Y Man a'r Lle", 31/10/16, 11.00yb.</i> Invitation to all councillors to the official opening of the new language centre.	<i>Mae copi wedi ei anfon at y cynghorwyr.</i> A copy has been forwarded to all councillors.
168	RNLI Fund Raising Group, Cardigan: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i wasanaeth carolau.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to the Christmas carol service, at St Thomas' Church, St Dogmaels, 18/12/16, 6.30pm	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.
169	RNLI Fund Raising Group, Cardigan: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r Ffair Nadolig, 16/11/16, 10.00-12.00noon.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to the Christmas Fair and Coffee Morning, at the Cliff Hotel.	<i>Mae copi ar gael yn swyddfa'r clerc.</i> Copy available at the clerk's office.
170	<i>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Gyngerdd Gala'r Coffa.</i> University of Wales Trinity Saint David: Invitation to the Mayor and Mayoress to the Gala Concert of Remembrance, 11/11/16, 7.30pm at Christ Church, Carmarthen.	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor. <i>Yn absenoldeb anorfod y Maer a'r Dirprwy Faer, cytunodd y cyn-Faer, y Cyng. Adams-Lewis, fynychu'r digwyddiad.</i> In the unavoidable absence of the Mayor and Deputy Mayor, the immediate Past Mayor, Cllr Adams-Lewis, agreed to attend the event.
171	Eisteddfod Llangollen 2017: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee. <i>Ffurflen gais wedi ei hanfon.</i> Application form forwarded, 18/10/16.
172	Bro Teifi Sheltered Tenants Association: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee. Application form forwarded and returned.
173	<i>Ffrindiau Amgueddfa Ceredigion / Friends of Ceredigion Museum:</i> <i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
174	<i>Archwiliad mewnol cyfrifon cyfredol y cyngor.</i> Audit Trail of council current accounts 2016-17. <i>Diolchodd y clerc i'r ddau gynghorydd am eu hymroddiad.</i> The clerk thanked both members for their diligence.	<i>Achwiliwyd gan y Cynghorwyr Melfydd George ac Akira Shimazaki ar 11/10/16.</i> Council accounts scrutinised by the above-named councillors on 11/10/16
175	<i>BT: Atal dros dro ymgynghoriad ar waredu ffonau talu BT.</i> Payphone removal consultation – temporary suspension.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/10/16
176	<i>Cymru i Bawb: Cyfarfod lansio.</i> Launch meeting, Morlan Centre, Queen's Road, Aberystwyth, 4/11/16, 7.30pm	<i>Mae poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed on notice board.
177	<i>Menter Aberteifi: Cais am lythyr o gefnogaeth.</i> Application for a letter of support for a grant application from Ceredigion's Community Grant scheme to help fund the installation of electric meters on the lower floor of the market.	<i>Cytunodd y Maer drafod y mater gyda swyddog Menter.</i> Due to the disparity of costs incurred by stallholders, the Mayor agreed to discuss the issue with a Menter officer.
178	<i>Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017:</i> <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee. <i>Ffurflen gais wedi ei hanfon.</i> Application form forwarded, 1/11/16.
179	<i>Canolfan Plant Jig-So Children's Centre: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Ddiwrnod Byd-Eang y Plant yn Jig-So.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Universal Children's Day at Jig-so, 21/11/16, Catholic Church Hall, 10.00-12.00 noon.	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor. <i>Yn absenoldeb anorfod y Maer, cytunodd y Dirprwy Faer fynychu'r digwyddiad.</i> In the unavoidable absence of the Mayor, the Deputy Mayor agreed to attend the function.
180	Mrs Carys Rees, Y Gilfach, Tre-saith: <i>Cwyn am arwyddion di-Gymraeg yn y dref.</i> Complaint regarding the monolingual shop signs in Cardigan.	<i>Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi trafod y mater gyda swyddog y cyngor sir sydd â chyfrifoldeb am bolisi iaith. Ni fedrir gorfodi masnachwyr a busnesau preifat i osod arwyddion dwyieithog fel y mae'r gyfraith yn sefyll ar hyn o bryd.</i> Cllr Adams-Lewis has discussed the matter with a county council official with responsibility for language policy and was informed that no existing legislation is available compelling shops and private businesses to install bilingual signs.

181	<i>Sul y Cofio / Remembrance Sunday (13/11/16): Ymddiheuriadau am eu habsenoldeb / Apologies for their absence: Arglwydd Raglaw Dyfed / Lord Lieutenant of Dyfed (Sara Edwards), Mark Williams AS/MP, Elin Jones AC/AM</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
182	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Hydref. Handyperson's October report.</i>	<i>I'w drafod tan eitem 12. To be discussed under item 12.</i>

Ann Jones:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closure Section</i>
Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr / Chief Executive.</i>
Cathryn Morgan:	<i>Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator</i>
Eifion Jones:	<i>Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Arfordir a Chefnngwlad Public Rights of Way Officer – Coast and Countryside</i>
Pam Morris:	<i>Cynorthwydd Clerigol Cyfreithiol / Legal Clerical Assistant</i>
Eirian Davies:	<i>Ymgynghoriad CSGA Gwasanaethau Dysgu / WESP Consultation Learning Services</i>
Paul Arnold:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol. Head of Municipal and Environmental Service</i>
Stephen Johnson:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 18 Hydref.
Confirmation of 18 October Sub-committee Minutes.

Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod cofnodion 18 Hydref yn rhai cywir; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.

Cllr Mark Cole proposed that the minutes of 18 October be accepted as correct; seconded by Cllr Graham Evans.

Materion yn codi Matters arising:

Tud. 1168 (Diffibriliwr): Dywedodd y Maer bod y bore coffi a gynhaliwyd ar 28 Hydref yn Neuadd y Dref wedi codi £250 tuag at Gronfa'r Maer.

Tud. 1169 (Unrhyw fater arall [a]): Disgwylir manylion oddi wrth swyddogion Theatr Byd Bychan am y system sain.

Page 1168 (*Defibrillator*): The Mayor stated that the coffee morning held on 28 October at the market place had raised £250 towards the Mayor's Fund.

Page 1169 (*Any Other Business [a]*): Further information regarding the sound system is awaited from Small World Theatre.

Bachan Deche: Mae dwy sedd i'r cyfarpar yn y man chwarae wedi ei harchebu. Cytunwyd bod y Bachan Deche yn gosod blodau'r gaeaf yn y potiau. Bu'n amhosib i'r Bachan Deche gywiro cyfeiriad y pyst bawd yn y dre. Cwestiynwyd perchenogaeth y pyst gan y Cyng. Adams-Lewis.

Handyperson: Two new seats have been ordered for the see-saw in the children's play area. Council agreed to purchase winter pansies to be planted in the flower containers. It has been an impossible task for the Handyperson to correct the direction of the finger posts in town. Cllr Adams-Lewis questioned the ownership of the posts.

13. Personél / Personnel.
Adolygiad blynyddol y Clerc / Clerk's annual review.

14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Mae Pwyllgor Dydd Sadwrn Barlys yn gofyn am lythyr oddi wrth y cyngor i gefnogi ei cais i newid trefniadau yr orymdaith o'r Ysgol Uwchradd a fydd yn caniatáu i holl drafnidiaeth yr orymdaith droi i'r dde yn hytrach na theithio o amgylch Gerddi Victoria. Caniatawyd y cais.**
- (b) **Cytunwyd bod y Cyngor yn anfon llythyr at Ms Ceri Mumford, Siop Spar, Aberteifi, am ymdrechion y cwmni i lanhau a chlirio cwrt y Strand.**
- (c) **Derbyniwyd nifer o gwynion am y llanast mae'r colomennod yn ei adael ar hyd balmentydd y Stryd Fawr. Cytunwyd gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â chyfrifoldeb perchenogion yr adeiladau.**

- (a) The Barley Saturday Show committee has requested a letter of support from the town council regarding a change to the layout of the road closure programme on the day of the show. As the procession leaves the Secondary School, it be allowed to turn right instead of circling Victoria Gardens. The council agreed to support the application.
- (b) It was agreed that a letter of gratitude be forwarded to Ms Ceri Mumford, Spar Shop, Cardigan, for the efforts of the staff to clear and clean the Strand courtyard.
- (c) A number of complaints has been received regarding the mess deposited by pigeons roosting on the upper reaches of shop buildings in the High Street. It was agreed to obtain further information regarding the ownership of the affected buildings.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.44yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.44pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date